



Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd	{Cliciwch yma}
Dyddiad y Crëwyd:	{Cliciwch yma}
Dyddiad y Cyhoeddwyd:	{Cliciwch yma}
Rhif y Fersiwn:	{Cliciwch yma}
Rhif Adnabod y Ddogfen	

---

<b>Man Gwasanaeth:</b>	Cyfadrn Addysg a Dysgu Gydol Oes
<b>Man Gweithio:</b>	Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif, Derbyniadau a Gwaharddiadau
<b>Manylion cyswllt:</b>	Andrea West <a href="mailto:westam@caerffili.gov.uk">westam@caerffili.gov.uk</a> 01443 864870
<b>Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Derbyniadau Ysgol
<b>Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Gwasanaeth Derbyniadau Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio gwybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych pan fyddwch yn cysylltu â'r Gwasanaeth Derbyniadau Ysgolion yn uniongyrchol neu pan fydd cyswllt/atgyfeiriad wedi ei wneud i'r Gwasanaeth Derbyn i Ysgolion gan sefydliad/unigolyn arall.

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

### Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Bydd Gwasanaeth Derbyniadau Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn storio gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chi a'ch plentyn (plant) i weinyddu'r proses o dderbyniadau ysgolion.

### Categoriâu o ddata personol a geir

Gall y Gwasanaeth derbyniadau Ysgol gael y categorïau canlynol a ddata personol:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad Geni
- Rhyw
- Manylion Cyswllt
- Rhif Treth y Cyngor
- Meddygol
- Iaith
- Anghenion Addysgol Arbennig
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â'r ysgol

### Ffynhonnell y data personol

Mae Gwasanaeth Derbyniadau Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn derbyn ac yn cofnodi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau at ddibenion penodol a ddiffinnir yn glir, fel yr amlinellir isod. Gellid derbyn y wybodaeth hon gan:

- Eich Hun
- Ysgolion
- Cyfadrannau eraill o fewn yr Awdurdod - Gwasanaethau Cymdeithasol, Treth y Cyngor ac ati
- Yr Heddlu
- Awdurdodau Iechyd
- Awdurdodau Addysg
- Awdurdodau Lleol Eraill
- Cyrff rheoleiddio - Comisiynydd Plant, Ombwdsman
- Asiantaethau Partner
- Gweithwyr Proffesiynol Meddygol
- Meddygon Teulu
- Cynrychiolwyr Cyfreithiol

Os hoffech ragor o wybodaeth am ffynhonnell yr wybodaeth sydd gennym, cysylltwch â'r ysgol.

## **Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth**

### **Diben y gwaith prosesu**

Mae'r Gwasanaeth Derbyniadau Ysgol yn defnyddio gwybodaeth bersonol i gynorthwyo gyda derbyn neu drosglwyddo plant i ysgolion, ac i sicrhau diogelu a lles yr holl ddisgyblion lle bynnag y bo angen.

### **Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r Awdurdod Derbyn i bob ysgol yn ardal y fwrdeistref sirol, ac maent yn gyfrifol am brosesu holl geisiadau derbyn a throsglwyddo'r ysgolion.

Mae gofyniad tasg cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth at y diben hwn.

Bydd y deddfwriaeth sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn dibynnu ar natur yr atgyfeiriad ond gall gynnwys:

Cod Derbyn i Ysgolion 2013  
Deddf Safonau A Fframwaith Ysgolion

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR), mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:.

6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu-

(a) (a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a

- (b) (b) Yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol y cyhoedd.
- (2) Y dibenion hynny yw -
  - (a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson trwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
  - (b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

*36 Cyflawnir yr amod hwn pe byddai'r prosesu yn bodloni amod yn Rhan 2 o'r Atodlen hon ond ar gyfer gofyniad penodol i'r prosesu fod yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd.*

Amodau yn Rhan 2 o'r Atodlen y cyfeirir atynt uchod yw'r amodau hynny ar gyfer prosesu manwl yr uchod o dan amodau Erthygl 9 ar gyfer prosesu data personol arbennig.

## **Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?**

### **Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones

Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data

E-bost: [diogeludata@caerffili.gov.uk](mailto:diogeludata@caerffili.gov.uk)

Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Derbyn i Ysgolion am ragor o wybodaeth.

### **Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd Gwasanaeth Derbyn i Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

**Manylion o unrhyw rannu o'ch gwybodaeth** Bydd y Gwasanaeth Derbyniadau Ysgol yn casglu a phrosesu'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaeth derbyniadau ysgol. I wneud hyn, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth yn fewnol gyda Thimau eraill o fewn y Gyfadran Addysg, Treth y Cyngor, Gwasanaethau Etholiadol, Adran Prydau Ysgol am Ddim, Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a thimau mewnol eraill sy'n gallu ein cefnogi i gwrdd â'ch anghenion a/neu anghenion eich teulu. Efallai y bydd angen i ni hefyd rannu eich gwybodaeth gydag asiantaethau partner allanol neu gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill; mewn sefyllfaoedd brys, byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth er mwyn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau. Cyfadran Addysg.

Gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i atal a chanfod twyll, ac felly gellir ei rhannu at y diben hwn gydag adrannau eraill o'r Cyngor, gan gynnwys Treth y Cyngor.

Efallai y bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu gydag adrannau eraill o'r Cyngor sy'n gweinyddu prydau ysgol am ddim,

### **Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill os oes gennym ddiben penodol a sail gyfreithlon ar gyfer rhannu'r wybodaeth. Bydd unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei lleihau ac yn gymesur â'r canlyniad y bwriadwn ei gyflawni. Gall hyn gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Yr Heddlu
- Awdurdod Iechyd
- Llysoedd Teulu
- Awdurdodau Lleol Eraill
- Ombwdsman dros Gymru
- Comisiynydd Plant
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Llywodraeth Cymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Darparwyr y 3ydd Sector
- Ystadau Diogel (Carchardai)
- Y Gwasanaeth Eryl Cenedlaethol
- Sefydliadau perthnasol eraill

Bydd pob rhannu o'ch data personol â sefydliadau eraill yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych chi'n symud y tu allan i ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili, efallai y bydd eich data personol yn cael ei rannu gyda'ch awdurdod lleol newydd i barhau i'ch cefnogi i ddiwallu eich anghenion a/neu anghenion eich teulu.

### **Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth diogelu data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y deddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## **Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

### **Manylion y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau. Byddwn yn cadw'ch holl wybodaeth yn ddiogel, p'un ai a gedwir yn electronig neu ar bapur. Dim ond am gyfnod penodol o amser y cedwir eich gwybodaeth, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Cofnodion y Cyngor.

Bydd natur y wybodaeth a gawn gennym yn pennu faint o amser rydym yn ei chadw. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

## **Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gŵynion)**

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i'r testun data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### **Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

[www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints](http://www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints)